Yr Arth Gyfrwys

Gonestrwydd / Goddefgarwch

Pan gyrhaeddodd y llwynog ei ffau ar ôl diwrnod o hela, gwelodd fod coeden fawr wedi syrthio ar draws ceg y ffau. Roedd y gwynt wedi bod yn stormus drwy'r dydd a doedd dim modd i'r llwynog fynd i mewn i'r ffau.

"Mae'n rhaid i mi gael help gan rywun i symud y goeden," meddai'r llwynog. Aeth ar ei union i chwilio am yr Arth Fawr. Roedd hi'n byw ar ochr y mynydd.

I ffwrdd â'r llwynog nerth ei draed. "Helo, Arth Fawr," meddai. "Rwy'n siŵr nad wyt ti wedi gweld ceffyl heb goesau?"

"Ceffyl heb goesau," atebodd yr arth. "Amhosibl."

"Mi fedra i ddangos ceffyl heb goesau i ti," meddai'r llwynog. Arhosodd yr Arth Fawr i feddwl am funud. "Mae gan yr hen lwynog cyfrwys rywbeth i fyny ei bawen," meddai'r Arth. "Beth am gael bet?" gofynnodd i'r llwynog, "ac os y byddai i'n ennill beth fydd y wobr?"

"Fe gei di brofi mêl cartref," medda'r llwynog ar ei union. Dechreuodd yr Arth fawr lyfu ei cheg.

"Ond, beth petawn i'n colli?" gofynnodd yr Arth

"Mi fydd raid i ti symud coeden fawr sydd wedi syrthio ar geg fy ffau," meddai'r llwynog.

"Os y byddai i'n colli yna mi fydda i'n siŵr o symud y goeden ar ôl i mi gysgu. Mi ydw i'n teimlo'n ddigon blinedig ac mi fydd raid i mi gael digon o nerth i symud y goeden.

Aeth y llwynog a'r Arth Fawr am dro i lan y môr ac eistedd ar graig fawr ar lan y môr. "Dyna fo," meddai'r llwynog – ceffyl heb goesau."

Craffodd yr Arth Fawr. Dyna lle'r oedd ceffyl dŵr yn nofio o gwmpas y graig.

"Ond nid ceffyl go iawn, ydi hwnna, "rhuodd yr Arth Fawr. "Wrth gwrs, mae o'n geffyl go iawn a does ganddo fo ddim coesau. Felly fi sy'n ennill y fet."

Rhuthrodd yr Arth oddi yno yn ei gynddaredd. Y bore dilynol

aeth y llwynog i chwilio am yr Arth Fawr. Doedd yna ddim golwg o'r Arth yn unman. Eisteddodd y llwynog ar garreg fawr wrth ochr yr ogof. Daeth aderyn heibio a rhoi neges i'r llwynog. Darllenodd y llwynog y geiriau, 'mi wnai symud y goeden pan fyddai'i wedi deffro y gwanwyn nesaf.'
"Beth?" gwylltiodd y llwynog.
"Ond fe ddywedodd y buasai'n symud y goeden ar ôl iddi gysgu," meddai'r aderyn.
"Ond soniodd hi ddim am gysgu dros y gaeaf," meddai'r llwynog.
"Wel," meddai'r aderyn. "Dydi'r Arth ddim yn credu bod yna botiad o fêl iddo yntau chwaith."
Aeth yr aderyn ymlaen. "Mae ganddo un cyngor bach i ti. Os wyt ti'n trin pobl yn onest, yna fe fyddan nhw yn dy drin di'n onest."
Ac aeth yr aderyn i ffwrdd. Bu'r llwynog yn meddwl a meddwl am ddyddiau.

O Dduw, helpa fi i fod yn blentyn gonest sydd bob amser yn cadw at fy ngair. Amen.

- Ydych chi'n credu bod y llwynog yn greadur cyfrwys?
- Pwy oedd y mwyaf cyfrwys o'r ddau?
- Pa mor bwysig ydi bod yn onest bob amser?